
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn nalgylch Tregatwg

Mae cyfnodau o law trwm dros y blynyddoedd diwethaf wedi amlygu effeithiau llifogydd ar lawer o gymunedau yng Nghymru, gan gynnwys Dinas Powys.

Rydym yn archwilio ffyrdd o leihau perygl llifogydd ac effeithiau newid yn yr hinsawdd i ardal Dinas Powys drwy reoli llifogydd yn naturiol yn nalgylch Tregatwg.




**Dangosir y map y 'dalgylch' - secsiwn o Afon Tregatwg a'i isafonydd.**

## Beth yw rheoli llifogydd yn naturiol?

'Rheoli llifogydd yn naturiol' yw gweithio gyda phrosesau naturiol i leihau'r perygl o lifogydd, drwy adfer nodweddion naturiol, storio dŵr dros dro, cynyddu faint o ddŵr y gellir ei ddal yn y pridd i helpu i arafu a lleihau llif y dŵr i'r nentydd ac afonydd.

Rydym yn archwilio rheoli llifogydd yn naturiol sy'n ymgorffori llawer o fuddion, ac rydym hefyd yn parhau i fod yn agored i atebion priodol adeiledig ar raddfa fach a all weithio ochr yn ochr â phrosesau naturiol. Nid yw'n cynnwys defnyddio seilwaith atal llifogydd traddodiadol fel argloddiau llifogydd neu waliau.

## Buddion rheoli llifogydd yn naturiol:

- **lleihau** effeithiau glaw trwm ar golli pridd
- **gwella** ansawdd dŵr, iechyd pridd, iechyd anifeiliaid, a'r gallu i wrthsefyll sychder
- **gwella** bioamrywiaeth, yn cefnogi cynefin bywyd gwyllt, a lles cymunedol
- **lleihau** effaith llifogydd i gymunedau i lawr yr afon
- **cefnogi** cynhyrchiant y tir
- **galluogi** ffermydd i amrywiaethu
- **storio** carbon ac yn helpu i addasu i newid yn yr hinsawdd

# Cyfleoedd i reoli llifogydd yn naturiol yn nalgylch Tregatwg

Cyfleoedd | Enghreifftiau | Buddion eraill

## Storio dŵr

Gall pyllau, crafiadau, bwndeli a phantiau storio dŵr dros dro, lleihau dŵr sy'n mynd i mewn i afonydd ac arafu llif y dŵr dros y tir.



- dal dŵr yn ystod adegau o sychder
- cynhyrchiant tir
- llai o golli pridd
- Iechyd pridd
- cefnogi rhywogaethau infertebratau a phlanhigion
- ansawdd dŵr

## Malurion pren mawr mewn sianeli afonydd

Mae hyn yn arafu'r llif drwy annog dŵr llifogydd i ollwng dros dro ar y gorlifdir lle bo hynny'n addas.



- iechyd pridd
- cynhyrchiant tir
- amrywiaeth o nodweddion cynefin afonydd
- bioamrywiaeth
- gwella strwythur sianel
- dal gwaddod a gwella ansawdd dŵr

## Adfer gorlifdiroedd, gwlyptiroedd ac ystumiau afonydd

Gellir storio llawer iawn o ddŵr ac arafu'r llif drwy ganiatáu i ddŵr llifogydd ollwng dros dro yn naturiol ar dir.



- iechyd pridd
- cynhyrchiant tir
- amrywiaeth o nodweddion cynefin afonydd
- bioamrywiaeth
- ansawdd dŵr
- gwella strwythur sianel
- yn caniatáu llifogydd mwy naturiol a llai pwerus, gan arwain at sefydlogi glannau afonydd
- draenio'n ôl i'r afon yn naturiol

## Adfer gwrychoedd a choed

Mae hyn yn dal glaw, yna mae'r dŵr yn anweddu o'r dail gan arwai at llai o ddŵr yn cyrraedd y ddaear. Mae hefyd yn helpu pridd i ddal mwy o ddŵr.



- cysgod a lloches ar gyfer anifeiliaid
- arafu dŵr wyneb
- dal a ffiltro dŵr ffo, yn atal colli gwrtaith, gwaddod a plaladdwyr
- iechyd pridd
- bioamrywiaeth
- ansawdd dŵr
- amsugno a storio carbon

## Plannu wrth ymyl afonydd ac ar draws llethrau

Gall llwyni, lleiniau clustogi glaswellt, neu goed arafu'r llif, helpu pridd i amsugno mwy o ddŵr, a helpu i sefydlogi glannau afonydd.



- sefydlogi glannau afonydd
- llai o erydiad
- cysgod a lloches ar gyfer anifeiliaid
- dal a ffiltro dŵr ffo, yn atal colli gwrtaith, gwaddod a plaladdwyr
- bioamrywiaeth a chynefin
- ansawdd dŵr
- amsugno a storio carbon

## Rheoli pridd a thir

Rheoli cywasgu pridd, a cylchdroadau cnydau a da byw.



- llai o golli pridd
- iechyd pridd
- llai o ardaloedd dyfrlawn
- dal dŵr yn ystod adegau o sychder
- bioamrywiaeth
- ansawdd dŵr
- arafu llif dŵr




## Camau Nesaf

Mae gweithio gyda'r gymuned leol, yn enwedig perchnogion tir ac eiddo, yn allweddol i roi mesurau rheoli llifogydd yn naturiol ar waith a lleihau'r perygl o lifogydd.

Ar hyn o bryd rydym yn cyfarfod â thirfeddianwyr, tenantiaid a stiwardiaid tir i archwilio cyfleoedd posibl.

Rydym yn annog pawb sydd â diddordeb yn y prosiect i rannu eu gwybodaeth leol, eu syniadau a'u pryderon.

## Manylion cyswllt

Gallwch gysylltu â'r tîm ar e-bost neu ar y ffôn.

**dinas.powys.nfm.plus@grasshopper-comms.co.uk**

**02920 108716**

**https://bit.ly/rheoli-llifogydd-yn-naturiol-dalgylch-tregatwg**